

DISGRIFIO

Testun sy'n cyflwyno gwybodaeth am ddigwyddiad, person, gwrthrych, lle ac ati, heb fynegi barn arno na chynnig esboniad.

MATH O FFURF – STORI, NOFEL, DISGRIFIAD O OLYGFA, PORTREAD O Berson A RHAN O DDYDDIADUR NEU YMSON

Defnyddiwch nodweddion arddull – ansoddeiriau, cymariaethau, cyffelybiaethau, trosiadau a phersonoli

Cofiwch apelio at y synhwyrâu – gweld, teimlo, clywed, arogli a blasu

Byddwch yn creu awyrgylch a naws

Gallwch greu cymeriad neu leoliad dychmygol neu real

Dewiswch y manylion perthnasol yn ofalus

CANLLAW I DRAFOD MATH O DESTUN:

DISGRIFIO

Trosolwg o nodweddion, iaith a strwythur



PA FATH O DESTUN YW HWN?

Testun sy'n cyflwyno gwybodaeth am ddigwyddiad, person, gwrthrych, lle ac ati, heb fynegi barn arno na chynnnig esboniad.

STRWYTHUR Y TESTUN	GWYBODAETH AM IAITH	CANLLAWIAU YSGRIFENNU
Bydd testun o'r math hwn i'w weld yn aml yn y ffurfiau canlynol: • Stori fer • Nofel • Disgrifiad o olygfa • Portread o berson • Rhan o ddyddiadur • Ymson • Llythyr	Bydd testun o'r math hwn yn cynnwys: • Ysgrifennu creadigol synhwyrus er mwyn dod â chymeriadau a lleoliadau'n fyw i'r darllenydd • Berfau ac ansoddeiriau mentrus a chyffrous • Amrywiol gysyllteiriau – darlunio, achos ac effaith, cymharu, pwysleisio ac amser • Defnydd o nodweddion arddull – ailadrodd, cymariaethau, cyffelybiaethau, trosiadau a phersonoli	Wrth ysgrifennu testun o'r math hwn gellid: • Creu naws ac awyrgylch arbennig • Defnyddio'r synhwyrus – gweld, teimlo, clywed, arogl a blasu • Adeiladu cymeriadau neu leoliadau dychmygol neu real • Defnyddio deialog sy'n dangos perthynas cymeriadau â'i gilydd • Cadw at nodweddion <i>genre</i> arbennig • Bod yn greadigol feiddgar, fentrus a heriol

YSGRIFENNU ER MWYN DISGRIFIO

Wrth ysgrifennu er mwyn disgrifio byddwn ni'n defnyddio nifer o dechnegau ond y nod bob amser yw DISGRIFIO! Wrth ddisgrifio byddwch yn creu naws neu awyrgylch arbennig gan adeiladu cymeriadau mewn sefyllfaoedd dychmygol neu real. Byddwch yn creu darluniau ym meddwl eich darllenydd gan eu swyno neu eu dychryn ond yn sicr byddwch yn gwneud iddyn nhw ymateb. Beth bynnag yw'r dechneg a ddefnyddir wrth ysgrifennu'n greadigol eich nod drwy eich disgrifiadau yw rhoi'r darllenydd ar daith trên y dychymyg. Gall ysgrifennu creadigol effeithiol fod yn hynod bwerus a pheidiwch ag anghofio y gallwch ddylanwadu'n fawr ar emosiynau eich darllenydd. Nid oes un math o ysgrifennu disgrifiadol a gallwch arbrofi â nifer o dechnegau ond mae'n bwysig ennyn ymateb drwy eich ysgrifennu creadigol.

BYDDWCH YN FENTRUS – peidiwch â bod ag ofn torri eich cwys eich hun! Defnyddiwch eirfa gyfoethog a nodweddion arddull trawiadol.

BYDDWCH YN FEIDDGAR – arbrofwch a gwthiwch ffiniau unrhyw *genre* – CHI biau'r geiriau!

BYDDWCH YN HERIOL – cofiwch eich bod yn anelu at ennyn ymateb gan eich darllenydd ac felly bydd angen DAL EU SYLW yn gyntaf ac YNA . . . eu rhoi drwy'r drin â'ch disgrifiadau byw!



DISGRIFIO

MATH O FFURF – STORI, NOFEL, DISGRIFIAD O OLYGFA, PORTREAD O BERSON A RHAN O DDYDDIADUR NEU YMSON

CIP AR DESTUN

Disgrifiad o olygfa

'I Bler Aeth Haul y Bore?'

Eirug Wyn. Y Lolfa

Roedd Chico'n teimlo'r bywyd yn araf ddiferu ohono. Gwyddai ei fod wedi colli llawer o waed a theimlai'n hollol wan. Ceisiodd gadw'n llonydd, ond roedd o eisoes wedi ffroeni'r bleiddiaid, ac wedi'u clywed yn nesáu ato. Doedd dim dwywaith nad arogl y gwaed oedd wedi'u denu. Roedd y gwaed yn diferu o'r clwyfau'n ei bennau gliniau, ac o'i geg.

Ceisiodd agor ei lygaid, ond roedd y rheiny'n llawn gwaed hefyd. Wedi agor a chau ei lygaid yn ffyrnig am eiliad neu ddwy gallai weld rhai o'r bleiddiaid yn dynesu. Yn araf bach, roedden nhw'n dod. Ffroeni, yna dod ato mewn cylch. Roedden nhw'n arogl ei waed. Yn synhwyro'i angau. Yn dod yn fwy powld. Unrhyw funud... unrhyw eiliad, roedd o'n disgwyl clywed brath y dannedd miniog yn rhwygo cnawd ei wddf. Roedden nhw'n nesáu. A'u cegau'n glafoerio.

Yna'n sydyn, dyna sŵn fel chwip. Syrthiodd un o'r bleiddiaid ar lawr â saeth trwy'i wddf. Neidiodd dau neu dri o'r lleill arno'n syth a'i larpio. Sŵn fel chwip yr eildro, ac roedd ail flaidd yn gwingo'n belen ar lawr â saeth trwy'i wddf yntau. Mewn chwinciad roedd y lleill wedi'i heglu hi.

Roedd Chico'n teimlo'r bywyd yn araf ddiferu ohono. Gwyddai ei fod wedi colli llawer o waed a theimlai'n hollol wan. Ceisiodd gadw'n llonydd, ond roedd o eisoes wedi ffroeni'r bleiddiaid, ac wedi'u clywed yn nesáu ato. Doedd dim dwywaith nad arogl y gwaed oedd wedi'u denu. Roedd y gwaed yn diferu o'r clwyfau'n ei bennau gliniau, ac o'i geg.

'I Bler Aeth Haul y Bore?'
Eirug Wyn
Y Lolfa

Portread o berson

'DIM'

Dafydd Chilton. Y Lolfa

Agoriad

Roedd yn ddyn cefnsyth yn ei dridegau hwyr. Eisteddai'n sgwâr ar gadair galed wrth fwrdd mawr y gegin lle'r oedd papurau newydd. Gorweddai ei ddwylo brown â'u cledrau ar i lawr o bobtu'r dalennau dieithr, heb eu cyffwrdd. Ond ar y papur oedd ei sylw.

Symudai ei lygaid yn araf ac yn ofalus ar hyd rhesi o luniau pen-ac-ysgwyddau a argraffwyd o un ochr y dudalen ddwbl lwyd i'r llall. Oedai ei olwg am eiliadau ar bob llun. Roedd yn astudio'r wynebau, yn dwyn i gof yr enwau. Ac yn darllen y broliant, byr, coffadwriaethol, o dan bob un.

Gafaelodd yn ochrau'r gadair a'i symud hi'n ôl, heb grafu'r llawr teils coch, glân, codi ar ei draed a cherdded draw at y sinc. Rhwng ei aeliau roedd rhigolau dwys duon ac roedd ei enau amlwg wedi eu brathu'n dynn.

Estynnodd y tegell a'i ddal dan y tap a throi dŵr iddo. Taniodd y nwy yn un o'r pedair coron ar ben y popty a rhoi'r tegell i dwymo. A throdd yn ôl at y sinc. Pwysodd arno, a chael ei ymyl yn oer dan ei ddwylo.

Symudai ei lygaid yn araf ac yn ofalus ar hyd rhesi o luniau pen-ac-ysgwyddau a argraffwyd o un ochr y dudalen ddwbl lwyd i'r llall. Oedai ei olwg am eiliadau ar bob llun. Roedd yn astudio'r wynebau, yn dwyn i gof yr enwau. Ac yn darllen y broliant, byr, coffadwriaethol, o dan bob un.

'DIM'
Dafydd Chilton
Y Lolfa

www.ylolf.com



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

DISGRIFIO



Er mwyn disgrifio gallech ddefnyddio:

- Ansoddeiriau er mwyn creu effaith a chynnal diddordeb
- Cyffelybiaethau er mwyn creu delweddau trawiadol
- Synhwyrâu er mwyn dod â'r sefyllfa'n fyw
- Berfau sy'n cyfleu tensiwn a gweithredoedd
- Teimladau i'n galluogi ni uniaethu â'r darn
- Deialog sy'n dangos perthynas cymeriadau â'i gilydd

Defnyddiwch y cysyllteiriau:



Darlunio - *er bod..., yn annhebyg..., ar y llaw arall...*

Achos ac Effaith - *felly..., o ganlyniad..., oherwydd...*

Cymharu - *cystal â..., yn debyg..., yn yr un modd....*

Pwysleisio - *yn arbennig..., yn fwy na dim..., yn wir...*

Amser - *nesaf..., yn dilyn hyn..., yn y cyfamser...*



Enghreifftiau o ffurfiau sy'n disgrifo y gallwch chi eu defnyddio:

1. Llythyr milwr o'r ffosydd
2. Ymson ffoadur
3. Sylwebaeth yn disgrifio lluniau mewn arddangosfa gelf
4. Dyddiadur carcharor
5. Disgrifiad o olygfa yn eich ardal
6. Portread o arwr

Cofiwch y rheolau iaith:

- Ansoddair yn treiglo'n feddal ar ôl enw benywaidd unigol – *merch dal, cadair galed, dinas brysur*
- Ni threigilir ansoddeiriau'n cychwyn gyda 'll' a 'rh' ar ôl 'yn' – *yn llawen, yn rheibus, yn lliwgar*

Gysyllteiriau

DISGRIFIO

DARLUNIO

er bod

yn annhebyg

ar y llaw arall

ACHOS AC EFFAITH

felly

o ganlyniad

oherwydd

pan

trwy

CYMHARU

cystal â

yn debyg i

yn yr un modd

eto

heb sôn am

beth bynnag

er

PWYSLEISIO

yn arbennig

yn fwy na dim

yn wir

AMSER

nesaf

yn dilyn hyn

yn y cyfamser

cyn

i ddechrau

yn y fan a'r lle

nes

wedyn

yn ddiweddarach

o'r diwedd

Diffodd y Sêr - Haf Llewelyn

DISGRIFIO

Gorffennaf yr 21ain, 1917

Annwyl Deulu,

Rwyf yn ysgrifennu atoch gan fawr obeithio eich bod i gyd mewn iechyd yna, fel yr wyf innau. Yr ydym ers ddoe yn teithio trwy wlad wedi'i chreithio'n ddwfn, ac olion rhyfel wedi'i anharddu. Eglwysy a'u tyrau wedi chwalu a threfi cyfan yn furddunod, ond martsio ymlaen sydd raid, ac erbyn hyn rydym wedi gadael Ffrainc o'n holau, ac wedi croesi i wlad fechan Belg.

Ni chaf ddweud, wrth gwrs, lle'n union yr ydym wrthych, gan y byddai hynny'n dwyn sylw'i swyddogion, a does wybod beth y bydden nhw'n ei wneud efo fy llythyr. Felly, digon yw dywedyd ein bod bellach wedi gosod ein gwersyll mewn man digon llaith a budr dan draed. Cawsom ddyddiau braf, ond mae'r tywydd gwlyb a fu, a'r bombardio, wedi troi'r tir yn gors ddigysur. O fy mlaen mae ffos ddu a'i llond o duniau Bully Beef gwag. Maent yn dywedyd wrthyf mai o'r ffos hon yr ydym i godi ein dŵr yfed ond amau hynny yr ydwyf. Daliodd un o'r bechgyn lygoden fawr yn ei sach neithiwr; y maent yn bla yma...a phan arhoswn yn llonydd fe deimlwn eu cyrff yn symud dros ein coesau, neu uwch ein pennau yn sniffio. O, na fyddwn i lawr wrth lan afon Prysor a'i phyllau gloyw, a 'Dim ond lleuad borffor ar fin y mynydd llwm; a sŵn hen afon Prysor yn canu yn y Cwm...'

Sut ddarlun gawn ni o effaith rhyfel yn y paragraff cyntaf?

Pa dechnegau disgrifio a ddefnyddir gan yr awdur yn y paragraff cyntaf?

Pa ansoddeiriau sy'n disgrifio'r gwersyll yn y paragraff hwn?

Ydy'r awdur yn defnyddio'r synhwyrau yn y paragraff hwn? Eglurwch pam eu bod yn effeithiol.

Pa gyferbyniad a welwn yn y paragraff hwn?



Pa ansoddeiriau sy'n disgrifio pryd a gwedd y dyn yn y paragraff agoriadol?

Pa nodweddion a ddefnyddir er mwyn creu awyrgylch yn y paragraff hwn?

Sut nawws mae'r awdur yn ei chreu yn y darn hwn?

Ydy'r defnydd o ferfau'n effeithiol ym mharagraffau 4 a 5? Pam?

Manylwch ar ddefnydd yr awdur o'r synhwyrâu.

Roedd yn ddyn cefnsyth yn ei dridegau hwyr. Eisteddai'n sgwâr ar gadair galed wrth fwrdd mawr y gegin lle'r oedd papurau newydd. Gorweddaï ei ddwylo brown â'u cledrau ar i lawr o bobtu'r dalennau dieithr, heb eu cyffwrdd. Ond ar y papur oedd ei sylw.

Symudai ei lygaid yn araf ac yn ofalus ar hyd rhesi o luniau pen-ac-ysgwyddau a argraffwyd o un ochr y dudalen ddwbl lwyd i'r llall. Oedai ei olwg am eiliadau ar bob llun. Roedd yn astudio'r wynebâu, yn dwyn i gof yr enwau. Ac yn darllen y broliant, byr, coffadwriaethol, o dan bob un.

Gafaelodd yn ochrau'r gadair a'i symud hi'n ôl, heb grafu'r llawr teils coch, glân, codi ar ei draed a cherdded draw at y sinc. Rhwng ei aelïau roedd rhigolau dwys duon ac roedd ei enau amlwg wedi eu brathu'n dynn.

Estynnodd y tegell a'i ddal dan y tap a throï dŵr iddo. Taniodd y nwy yn un o'r pedair coron ar ben y popty a rhoi'r tegell i dwymo. A throdd yn ôl at y sinc. Pwysodd arno, a chael ei ymyl yn oer dan ei ddwylo.

Yna, cododd ei olwg i edrych drwy'r ffenestr gwareli bach a'r ymylon calchog. Edrychodd o du ucha'r buarth cerrig a'i lwch, heibio'r ysgubor a'r certws ac i ochr arall y cwm, at fron Cader Berwyn. Edrychodd, a dal i edrych, ac yn raddol fe ymwthiodd mwynder y llechwedd melynwyrd i'w feddylïau. Dechreuodd glywed ei dawelwch. Llaciodd ei dyndra fymryn...

Gwichiodd y tegell.

I Ble'r Aeth Haul y Bore? Eirug Wyn



Roedd Chico'n teimlo'r bywyd yn araf ddiferu ohono. Gwyddai ei fod wedi colli llawer o waed a theimlai'n hollol wan. Ceisiodd gadw'n llonydd, ond roedd o eisoes wedi ffroeni'r bleiddiaid, ac wedi'u clywed yn nesáu ato. Doedd dim dwywaith nad arogl y gwaed oedd wedi'u denu. Roedd y gwaed yn diferu o'r clwyfau'n ei bennau gliniau, ac o'i geg.

Ceisiodd agor ei lygaid, ond roedd y rheiny'n llawn gwaed hefyd. Wedi agor a chau ei lygaid yn ffyrnig am eiliad neu ddwy gallai weld rhai o'r bleiddiaid yn dynesu. Yn araf bach, roedden nhw'n dod. Ffroeni, yna dod ato mewn cylch. Roedden nhw'n arogl ei waed. Yn synhwyro'i angau. Yn dod yn fwy powld. Unrhyw funud . . . unrhyw eiliad, roedd o'n disgwyl clywed brath y dannedd miniog yn rhwygo cnawd ei wddf. Roedden nhw'n nesáu. A'u cegau'n glafoerio.

Yna'n sydyn, dyna sŵn fel chwip. Syrthiodd un o'r bleiddiaid ar lawr â saeth trwy'i wddf. Neidiodd dau neu dri o'r lleill arno'n syth a'i larpio. Sŵn fel chwip yr eildro, ac roedd ail flaid yn gwingo'n belen ar lawr â saeth trwy'i wddf yntau. Mewn chwinciad roedd y lleill wedi'i heglu hi.

Welodd Chico mo'i achubwyr. Aeth popeth yn ddu. Ond fe glywodd eiriau tyner yn iaith yr Arapaho wrth iddo gael ei dorri'n rhydd o'r goeden.

Pa dechnegau mae Eirug Wyn yn eu defnyddio er mwyn disgrifio cyflwr Chico?

Pa effaith mae Eirug Wyn yn ei greu wrth bentyrru'r brawddegau byrion?

Beth yw pwrpas yr elipsiau yn yr ail baragraff?

Pa ferf a ddefnyddir yn y paragraff hwn er mwyn dangos bod y blaid mewn poen?

Pa ansoddair a ddefnyddir yma er mwyn dangos bod Chico'n ddiogel gyda'r Arapaho?

DISGRIFIO





Graff Teimladau

Teimlad

*Amser neu
ddigwyddiad*

GWELD

AROGLI

CLYWED

BLASU

TEIMLO